

## Ysbrydolrwydd Undod

### Gair Bywyd - Ionawr 2020

*Mae undod yn denu presenoldeb Iesu i'n plith ac mae ei bresenoldeb yn trawsnewid popeth. Felly gadewch i ni gyfarch pob un o'n cymdogion gan ddymino eu croesawu â'n holl galon a gosod sail ar gyfer perthynas o gyd-gariad*

#### **Roedd pobl yr ynys yn hynod garedig. (Actau 28:2)**

Ar ôl pythefnos ar y môr, cyrhaeddodd dau gant a saith deg chwech o bobl oedd wedi'u llongdryllio lannau ynys ym Môr y Canoldir. Roedden nhw'n wlyb at eu crwyn, yn gwbl luddedig ac yn ofni am eu heinioes. Ar ôl profi eu diffyg pŵer gerbron grymoedd natur daethon nhw'n agos at golli eu bywydau. Yn eu plith roedd carcharor ar ei ffordd i Rufain lle byddai'n wynebu dyfarniad yr ymerawdwr.

Nid stori newyddion ddiweddar yw hon. Digwyddodd i Sant Paul yr apostol, oedd yn cael ei gludo i Rufain i goroni ei genhadaeth fel efengylwr drwy dystiolaeth merthyrdod. Ei ffydd ddisymud mewn Rhagluniaeth oedd yn ei gynnal. Er ei fod yn garcharor ei hun, llwyddodd i gefnogi ac annog ei gymdeithion oedd hefyd yn rhan o'r anffawd hon tan iddyn nhw gyrraedd glan ar draeth ym Malta.

Cawson nhw groeso gan bobl yr ynys, a gyneudd dân mawr iddyn nhw glosio o'i gwmpas a chynhesu. Yna gofalodd yr ynyswyr amdany'n nhw am ryw dri mis dros y gaeaf, ac ar ôl hynny rhoddon nhw bopeth oedd ei angen arny'n nhw i barhau â'u taith yn ddiogel.

#### **Roedd pobl yr ynys yn hynod garedig.**

Profodd Paul a'r lleill oedd wedi'u llongdryllio garedigrwydd cynnes ac ymarferol gan bobl nad oedden nhw eto wedi derbyn goleuni'r Efengyl. Doedd dim byd yn frysio nac yn amhersonol yn y ffordd y cawson nhw eu derbyn, ond yn hytrach cafodd yr ymwelwyr gymorth gwirioneddol heb unrhyw ragfarn ddiwylliannol, grefyddol na chymdeithasol. Yr unig ffordd y gall hyn ddigwydd yw drwy gyswllt personol holl aelodau'r gymuned gyfan.

Mae'r gallu i dderbyn pobl eraill yn rhan o DNA pob unigolyn oherwydd y tu mewn i bob un ohonom mae delwedd y Tad trugarog. Mae hyn yn wir am Gristnogion a'r rheini nad ydyn nhw'n dilyn y ffydd Gristnogol. Mae'n gyfraith a ysgrifennwyd ar y galon ddynol, y mae Gair Duw wedi'i dwyn i'r goleuni a'i datblygu, o gyfnod Abraham<sup>1</sup>, hyd at ddatgeliad trawiadol Iesu, "chi roddodd groeso i mi pan doeddwn i ddim yn nabod neb."<sup>2</sup>

Mae'r Arglwydd ei hun yn rhoi cryfder i ni drwy ei ras, fel bod modd i'n hewyllys fregus gyflawni llawnder cariad Cristnogol.

Drwy'r profiad hwn, mae Paul hefyd yn ein dysgu i ymddiried yn ymyrraeth ragluniaethol Duw a chydabod a gwerthfawrogi'r holl dda rydym ni'n ei dderbyn drwy gariad gwirioneddol gan lawer o bobl sy'n croesi ein llwybr.

---

<sup>1</sup> Cf. Gen 18:1-16.

<sup>2</sup> Mt 25:35.

## Roedd pobl yr ynys yn hynod garedig

Cynigiwyd yr adnod hon o Actau'r Apostolion gan Gristnogion o amrywiol Eglwysi ar ynys Malta fel arwyddair yr Wythnos o Weddi dros Undod Cristnogol 2020<sup>3</sup>.

Drwy gydweithio, mae'r cymunedau hyn yn cefnogi mentrau niferus sy'n helpu'r tlawd a mewnfudwyr. Maen nhw'n dosbarthu bwyd, dillad a theganau i blant. Maen nhw'n rhoi gwersi Saesneg i sicrhau cynhwysiad cymdeithasol. Eu dymuniad yw cryfhau'r gallu hwn i dderbyn, a hefyd meithrin cyfeillgarwch ymhlith Cristnogion sy'n perthyn i Eglwysi gwahanol er mwyn gallu tystio eu ffydd gyffredin.

A sut ydym ni'n tystiolaethu cariad Duw i'r bobl sydd o'n cwmpas? Sut ydym ni'n cyfrannu at adeiladu teuluoedd unedig, dinasoedd cefnogol a chymdeithasau gwirioneddol ddyngarol? Dyma beth yr awgrymodd Chiara Lubich, sylfaenydd Mudiad Focolare:

*"Dangosodd Iesu i ni fod caru'n golygu derbyn eraill fel y maen nhw, fel y croesawodd ef bob un ohonom ni. Gallwn groesawu pobl eraill gyda'u hoffterau a'u hanhoffterau, eu syniadau, eu beiau a'u hamrywiaeth... Gallwn "wneud lle ynom ni ein hunain" i eraill drwy oresgyn rhagfarn, beirniadaeth neu agwedd o ymwrthod a all fod yn ein calonnau... Dydyn ni byth yn rhoi mwy o ogoniant i Dduw na phan fyddwn ni'n ymdrechu i dderbyn ein cymdogion oherwydd dyna pryd rydym ni'n gosod sylfeini cyfeillgarwch a does dim byd yn rhoi mwy o lawenydd i Dduw na gwir undod ymhlith pobl. Mae undod yn denu presenoldeb Iesu i'n plith ac mae ei bresenoldeb yn trawsnewid popeth. Felly gadewch i ni gyfarch pob un o'n cymdogion gan ddymuno eu croesawu â'n holl galon a gosod sail ar gyfer perthynas o gyd-gariad."*<sup>4</sup>

Letizia Magri

---

<sup>3</sup> Caiff yr Wythnos o Weddi dros Undod Cristnogol ei dathlu bob blwyddyn yn hemisffer y gogledd rhwng 18 a 25 Ionawr, ac yn hemisffer y de rhwng gwyliau Dyrchafael a'r Pentecost.

<sup>4</sup> C. Lubich, Gair Bywyd Rhagfyr 1986.